# Am y swydd

## UWCH SWYDDOG CAFFAEL

Fel Uwch Swyddog Caffael, byddwch yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi cyflawni gweithgareddau caffael a rheoli contractau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Yn rhan o Dîm Gweithrediadau y Swyddfa Rheoli Portffolio, byddwch yn cefnogi i sicrhau bod y broses caffael yn gcydymffurfio, yn strategol ac yn cyd-fynd â gwerthoedd y sefydliad—gan gynyddu gwerth cymdeithasol a darparu'r gwerth gorau i'r rhanbarth.

Mae hon yn swydd gydweithredol, yn gweithio yn agos gyda thimau mewnol ac partneriaid allanol i gefnogi cyflawni prosiectau trawsnewidiol ar draws Gogledd Cymru. Byddwch yn darparu cyngor, cyfrannu tuag at ddatblygu strategaethau caffael, a chefnogi gyda rheoli contractau ar draws portffolio eang o brosiectau.

Er nad yw'r swydd yn rheoli tîm yn uniongyrchol, byddwch yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr mewn capasiti cefnogol ac pan fo angen yn dirprwyo ar ran y Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol.

Mae hwn yn gyfle cyffrous ar gyfer person proffesiynol caffael sydd yn angerddol am werth cyhoeddus, cynaliadwyedd a effaith rhanbarthol



